

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Hysbysiad Preifatrwydd
GWASANAETH IEUENCTID - GWASANATHAU A
GOMISIYNIR

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a'r ddeddfwriaeth berthnasol

Tîm Llywodraethu Gwybodaeth

Lisa Richards – Swyddog Diogelu Data

Sam Bishop – Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Rebecca Walsh - Swyddog Datgelu Data a Chofnodion

Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful,
CF47 8AN

Data.Protection@merthyr.gov.uk, 01685 725000



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

Dyddiad Crëwyd:	25 Mai 2018
Adran â Chyfrifoldeb:	Gwasanaeth Ieuentid
Rheolwr â Chyfrifoldeb:	Samantha Morgan
Cyfeiriad:	CBSMT, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn darparu gwybodaeth am sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn casglu a phrosesu eich data personol pan fyddwch yn cael mynediad at ein Darpariaeth Gwasanaeth Ieuentid. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn gyfrifol am benderfynu sut yr ydym yn cadw a defnyddio'r wybodaeth bersonol a gasglwn. Mae'n ofynnol i ni o dan ddeddfwriaeth diogelu data eich hysbysu chi o'r wybodaeth sy'n cael ei chynnwys yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

Nid yw'r hysbysiad hwn yn ffurfio rhan o unrhyw gontract i ddarparu gwasanaethau. Gallwn ddiweddarau'r hysbysiad hwn ar unrhyw adeg, os byddwn yn gwneud hynny byddwn yn sicrhau bod copi wedi ei ddiweddarau o'r hysbysiad hwn ar gael i chi cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Y mae'n bwysig eich bod chi'n darllen yr hysbysiad preifatrwydd hwn ynghyd â'n Polisi Safonau Preifatrwydd sy'n cynnwys mwy o wybodaeth fanwl am ein prosesu data a gellir cael mynediad ato o'n gwefan.

T Mae'r hysbysiad hwn yn benodol berthnasol i'r Gwasanaeth Ieuentid a Gwasanaethau Ieuentid a Gomisiynwyd. Diben y Gwasanaeth Ieuentid yw datblygu sgiliau personol a chymdeithasol pobl ifanc, i'w galluogi nhw i gyfrannu'n gadarnhaol oddi fewn i'r teulu a'r amgylchedd cymunedol, a datblygu sgiliau meddal drwy weithgareddau sy'n briodol i anghenion pobl ifanc.

1. GWYBODAETH BWYSIG A PHWY YDYM NI

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yw'r rheolwr sy'n gyfrifol am eich data personol. Mae'r Cyngor yn cynnwys gwahanol adrannau, a gellir cael manylion amdanynt ar ein gwefan. Pan fyddwn yn cyfeirio at yr adran, at y Gwasanaeth Ieuentid y byddwn yn cyfeirio ato, sy'n gyfrifol am brosesu eich data a fydd yn glir i chi pan fyddwch yn defnyddio'r gwasanaeth hwn.

Mae'r hysbysiad hwn yn gymwys i bobl ifanc 11-25 oed. Yr oedran sy'n cael blaenoriaeth ar gyfer y gwasanaeth ieuencid yng Nghymru ac yn lleol yn y fwrdeistref yw pobl ifanc 13-19 oed.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi penodi Swyddog Diogelu Data a gellir cysylltu â'r swyddog gan ddefnyddio'r manylion canlynol:

Mrs. Lisa Richards (Swyddog Diogelu Data)

Cyfeiriad: Tîm Llywodraethau Gwybodaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful, CF47 8AN

E-bost: data.protection@merthyr.gov.uk

Ffôn: 01685 725000

2. Y DATA A GASGLWN AMDANOCH CHI

Mae'n bosibl y byddwn yn casglu, defnyddio, cadw a throsglwyddo gwahanol fathau o ddata personol amdanoch chi fel a ganlyn:

- Data adnabod a chyswllt fel eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn, oedran a dyddiad geni a manylion cyswllt eich rhieni / gwarcheidwaid.
- Data addysgol fel yr ysgol rydych yn ei mynychu, a oes gennych unrhyw anghenion addysgol arbennig, rydym hefyd yn monitro hanes eich dysgu wrth gael mynediad at ein gwasanaethau i sicrhau eich bod yn gwneud cynnydd ar hyd y llwybr hyfforddiant a datblygu a gynlluniwyd ar eich cyfer. Bydd hyn yn cynnwys manylion o'ch cyfranogiad oddi fewn i'r Gwasanaeth Ieuencid.
- Data ffordd o fyw fel eich ethnigrwydd, iaith, hil neu ofynion diwylliannol, mae'n bosibl y byddwn hefyd yn casglu data sy'n berthnasol i'ch ymddygiad a allai gynnwys cael eich gwahardd o'n canolfannau neu wasanaethau.
- Data iechyd a fydd yn cynnwys unrhyw gyflwr corfforol neu feddyliol yn cynnwys unrhyw feddyginiaeth a ragnodwyd.
- Data troseddu sy'n cynnwys gwybodaeth trosedd ieuencid os ydych wedi ein hysbysu o unrhyw euogfarnau troseddol.

Mae'r wybodaeth uchod yn ofynnol er mwyn i ni eich darparu chi gyda'n gwasanaethau. Rydym yn esbonio'r gwahanol ddulliau a ddefnyddir i gasglu'r data hwn amdanoch chi yn adran 3 yr hysbysiad preifatrwydd hwn.

3. SUT YR YDYM YN DEFNYDDIO EICH DATA PERSONOL

Byddwn yn casglu eich data personol oddi wrth ein darparwyr gwasanaeth a gomisiynwyd. Bydd y darparwyr hyn yn uwchlwytho eich data i'r System Gwybodaeth Rheoli Capita Gwasanaeth

Ieuenctid y Cyngor. Mae'n bosibl y byddwn hefyd yn cadw eich data personol yn ein System Evolve, sef system diogelwch iechyd a ddefnyddir ar gyfer gweithgareddau oddi ar y safle.

Byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol pan fo'r gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. Bydd y rhain yn cynnwys y darpariaethau a osodwyd allan o dan Reoliadau GDPR a ble y bo'n berthnasol y Ddeddf Diogelu Data 2018. Byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol o dan yr amgylchiadau canlynol:

1. Pan fo angen i ni gydymffurfio ag oblygiad cyfreithiol o dan y cyfreithiau canlynol
 - Deddf Dysgu a Sgiliau (2000)
 - Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid (Cymru) 2002
 - Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006;
 - Deddf Plant a Phobl Ifanc 1963;
 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Ble y bo'n angenrheidiol er budd y cyhoedd neu at ddibenion swyddogol fel darparu ffurflenni treth ystadegol i Lywodraeth Cymru, ac i'n galluogi ni i gyfrannu at yr ymrwymadau a wnaeth gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, Plant a Phobl Ifanc: Hawliau i Weithredu, Diogelu Plant: Gweithio Ynghyd o dan y Ddeddf Plant 2004.

2. Ble y bo'n angenrheidiol at ein buddion cyfreithiol (neu rai trydydd parti) a'ch buddion chi a hawl sylfaenol i beidio â goresgyn y buddion hynny.

Mae'r cyfreithiau a chanllawiau uchod yn berthnasol i'r gwasanaethau mae'r Adran yn eu darparu. Maen nhw hefyd yn berthnasol i'n gwasanaethau a gomisiynwyd sydd hefyd yn rheolwyr data.

4. SUT YR YDYM YN RHANNU EICH DATA PERSONOL

Mae'n bosibl i ni rannu eich data personol ar draws yr Adran Llesiant Cymunedol, er mwyn cyflenwi gwasanaeth effeithiol ac effeithlon gofynnol i chi, byddwn hefyd yn rhannu eich data yn fewnol ar draws Adrannau eraill y Cyngor a hefyd â thrydydd partiön allanol sef ein darparwyr gwasanaeth dan gomisiwn. Am restr gyfredol o'n darparwyr gwasanaeth dan gomisiwn cysylltwch â'r Rheolwr Cyfrifol ar y manylion a ddarperir uchod.

Byddwn yn rhannu data dienw, ystadegol a setiau cyflawn o ddata personol yn chwarterol o ran y gweithgaredd hwn gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer ymchwil a dadansoddi ystadegol a berfformiwyd er mwyn gwella'r darpariaethau gwasanaethau ieuenctid a ddarparwyd i bobl ifanc yng Nghymru.

Ni fyddwn yn trosglwyddo eich data i unrhyw wledydd y tu allan i Ardal Economaidd Ewrop. Os byddwn yn gwneud hynny byddwn yn eich hysbysu cyn gynted ag y bo'n bosibl a gallwch ddisgwyl cyfradd o ddiogelwch mewn perthynas â'ch gwybodaeth bersonol.

5. SUT FYDDWN NI'N CADW EICH GWYBODAETH YN DDIOGEL

Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth bersonol am gyhyd ag y bo'n angenrheidiol i gyflawni'r dibenion y gwnaethom ei chasglu, gan gynnwys at ddibenion bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddol neu adrodd yn ôl.

Ceir manylion am gyfnodau cadw ar gyfer gwahanol agweddau o'ch gwybodaeth bersonol yn ein Polisi Rheoli Cofnodion sydd ar gael ar ein gwefan (www.merthyr.gov.uk).

Rydym wedi gweithredu mesurau diogelu priodol i atal eich gwybodaeth bersonol rhag mynd ar goll yn ddamweiniol, ei defnyddio neu fod mynediad ati mewn modd heb ei awdurdodi, neu ei haltro neu ei datgelu. Yn ychwanegol, rydym yn cyfyngu ar y mynediad i'ch gwybodaeth bersonol i'r cyflogeion hynny sydd ag angen busnes i wybod. Dim ond yn dilyn cyfarwyddyd gennym ni y byddant yn prosesu eich gwybodaeth bersonol ac maen nhw'n amodol ar ddyletswydd o gyfrinachedd.

Rydym wedi gosod gweithdrefnau mewn lle i ddelio gydag unrhyw amheuaeth o dorcyfraith o ran diogelwch a byddwn yn eich hysbysu chi ac unrhyw reoleiddiwr cymwys o unrhyw amheuaeth o dorcyfraith ble y mae'n gyfreithiol ofynnol i ni wneud hynny.

6. EICH HAWLIAU CYFREITHIOL

O dan rai amgylchiadau, mae gennych chi hawliau o dan gyfreithiau diogelu data mewn perthynas â'ch data personol yn cynnwys yr hawl i dderbyn copi o'r data personol rydym yn ei gadw andanoch chi, caiff yr hawliau hyn eu manylu yn yr hysbysiad preifatrwydd llawn. Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno ar unrhyw adeg i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef awdurdod goruchwyliol y DU ar gyfer materion diogelu data:

Cyfeiriad: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru), 2^{il} Lawr, Tŷ Churchill, Churchill Way, Caerdydd, CF10 2HH

E-bost: casework@ico.org.uk

Ffôn: 0330 414 6421

7. MANYLION PELLACH

Os ydych chi'n chwilio am ragor o wybodaeth am sut yr ydym ni'n prosesu diogelwch eich data, cadw data, hawliau unigol ewch i weld ein polisi preifatrwydd llawn.